**CYNGOR CYMDEITHAS LLANNERCH-Y-MEDD COMMUNITY COUNCIL**

**06.07.23**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol:** DAW/JOJ (Cadeirydd/Is Gadeirydd) JAJ; RY; EY; TAJ; RJ; DP; IW; EO;<br><br>**Ymddiheuriadau:** AR;<br><br>**Yn mynychu:** Cyng Jackie Lewis; SWR |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br><br>Datganodd EY/RY ddiddordeb ym materion Maes Athen |
| **3** | **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol / Annual General Meeting**<br><br>• **Adroddiad y Cadeirydd / Chairman's Report - 1.4.22 – 30.6.23**<br><br>Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar lafar am ei gyfnod o 15 mis yn cadeirio. Adroddiad ynghlwm<br><br>Adroddiad%20y%20 Cadeirydd.docx<br><br>Cytunwyd i greu adroddiad ar gyfger y Papur Bro / Hysbysfwrdd. TAJ/Clerc i weithredu<br><br>• **Rheolau Sefydlog / Standing Orders**<br><br>Cyflwynodd y Clerc gopi diwygiedig o'r Rheolau Sefydlog argymhellwyd gan Unllais. Cynnigiodd JAJ i'w derbyn ac fe eilwyd gan TAJ - cytunwyd i'w derbyn yn unfrydol<br><br>• **Dewis Swyddogion / Elect Officials**<br><br>DAW yn ildio'r gadair i'r Is Gadeirydd JOJ.<br><br>Nodwyd bod angen ethol Is-Gad – hwn ymlaen i gyfarfod mis Medi<br><br>• **Adolygu Is Bwyllgorau / Review Sub Committees** |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Cytunwyd i'r Clerc greu amserlen cyfarfodydd erbyn mis Medi, cadw at y drefn fel ag y mae yn y cyfamser. |
| **4** | **Cofnodion 01.06.23** Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 01.06.23 fel rhai cywir (EO/RJ)<br>**26.6.23 – Cofnodion cyfarfod ychwanegol -** Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion ychwanegol 26.6.23 fel rhai cywir (JOJ/TAJ)<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>• Cwynion Maes Athen - cyfeiriwyd at gwynion a dderbyniwyd eisoes gan drigolion Maes Athen am ymddygiad gwrth cymdeithasol ar y safle. Cyfeiriwyd at gyfrifoldeb C C Llan i weithredu ar unrhyw gwyn a ddaw i law ac o ganlyniad adroddwyd i CSYM am gyflwr rhai gerddi ac ymddygiad plant ar y stad. Nododd RY nad oedd preswylwyr Maes Athen am wahardd y plant rhag cicio pêl ond yn hytrach i ofyn iddynt beidio cicio yn erbyn waliau'r tai cyfagos. Croesawyd Duane Jones, preswylydd ym Maes Athen i'r cyfarfod yn dilyn cytundeb gyda'r Cadeirydd. Roedd Mr Jones yn gwrthwynebu labelu ymddygiad y plant yn wrth gymdeithasol. Dywedodd hefyd bod rhai plant sydd ddim yn byw ym Maes Athen yn dod yno gan fod y cae Astro ar gau. Cytunwyd bod cau'r Cae Astro wedi ychwanegu at y broblem a chytunodd y Clerc i holi'r Pennaeth am y sefyllfa ddiweddaraf gyda'r cynnal a chadw sydd ei angen yno.<br>Nododd y Clerc ei bod yn disgwyl diweddariad gan CSYM am gŵyn CC Llan ynglŷn â chyflwr blêr rhai gerddi ac ardaloedd.<br>Awgrymwyd na ddylid ail lenwi'r bocsys dal bagia baw ci am rŵan gan fod plant yn eu taflu o gwmpas y stad.<br><br>Cytunwyd bod angen i'r tenantiaid drafod y sefyllfa ymysg ei gilydd yn bwyllog ac ystyrlon.<br><br>• Cae Astro - Clerc i holi Pennaeth yr Ysgol os oes modd ail-agor y Cae Astro.<br><br>• Cynllun Gweithredu Priffyrdd CSYM - dim diweddariad. Nodwyd y pryder nad yw mynediad ger Sarn Fadog wedi cael sylw er sawl cais. |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>• Rhodd Cadair Eisteddfod i'r Gymuned – adroddodd y Clerc am ddymuniad Mr Geraint Jones Lledwigan gynt, i gyflwyno Cadair Eisteddfod mae wedi ei hennill i gymuned Llannerchymedd yn ei ewyllys. Cytunwyd yn unfrydol i dderbyn y rhodd a threfnu i |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | arddangos y gadair yn Hwb Grŵp LlanNi yn llawnder amser. Clerc i lythyru a Mr Jones i nodi derbyn y rhodd werthfawr ar ran y gymuned.<br><br>• Cynnal a chadw<br>- Maes Parcio Glan Menai a Sgwar – nodwyd bod cryn waith chwynu yn y ddwy ardal yma. Clerc i gyslltu a CSYM i weithredu.<br><br>- Cwrbin diffygiol – nodwyd bod cwrbin ddiffygiol wrth y Siop ac wrth y Garej. Clerc i gysylltu a CSYM i weithredu trwsio.<br><br>• Effaith negyddol ceisiadau cynllunio ar yr Iaith Gymraeg – ymlaen i gyfarfod mis Medi.<br><br>• Signalau ffôn – nodwyd y bu traffertion signalau ffôn ond maent bellach wedi eu datrys.<br><br>• Materion Heddlu – Clerc i geisio mynychiad ar gyfer cyfarfod mis Medi. |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Mehefin** – dim<br><br>**Biliau cyfredol**: £<br>Cyflog Clerc Mehefin & 1 taliad ZOOM 506.28<br>HJT Electricals – gosod cyfarpar yn y Caffi 127.48<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £ 12161.49<br>Cyfrif Cadw: £ 1445.57<br><br>**Lwfans Cynghorwyr / Councillors Allowance – 2023**<br>Cyferiodd y Clerc at wella y broses ar gyfer yr hawliad uchod. Nododd bod yr Archwilwyr yn edrych am broses dryloyw a chywir. Cytunwyd i'r Clerc gyda cymorth TAJ i adolygu'r ffurflen hawlio gyfredol ar gyfer cyfarfod mis Medi.<br><br>**Cyfrifon 22/23 Accounts**<br>Nodwyd pryder ymysg yr aelodau bod oedi gyda chyflwyno adroddiad yr Archwiliwr Mewnol ac o ganlyniad oedi gyda cyrraedd y terfyn amser ar gyfer Swydda Archwilio. Cytunwyd i'r Clerc geisio amserlen bendant gan yr Archwiliwr Mewnol ar gyfer 2023-24. Nododd y Clerc bydd 2023-24 yn Archwiliad Llawn ac bydd llawer o waith paratoi ychwanegol o gnalyniad. |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| 7 | **Materion Cynllunio**<br><br>Ymgynghoriad Cynllunio -<br>• Bryn Owain Llannerchymedd<br>• Lledwigan, Coedana Llannerchymedd -<br><br>Cynnigiodd TAJ ac fe eilwyd gan JAJ i gymeradwyo'r ddau gais uchod. Cytunwyd yn unfrydol. . |
| 8. | **Adroddiad Cynghorwyr Sir**<br>Cyfeiriodd LLMH (fel Cynghorydd Sir) at y canlynol:-<br><br>• Cyfeiriodd at amrywiol ymgynghoriadau sydd ar waith gan CSYM (wedi eu cylchredeg i'r aelodau eisoes) a gofynnwyd i'r aelodau anfon unrhyw sylwadau at y Clerc.<br>• Pont Borth - nodwyd bod tua 2 flynedd o waith cynnal a chadw i ddod er mwyn sicrhau diogelwch.<br>• Nododd bod Cyngor Wrecsam wedi cyhoeddi diffyg o £20m yn barod yng nghyllideb y flwyddyn ariannol gyfredol oherwydd chwyddiant.<br>• Cyfeiriodd at brosiect Morlais, Caergybi sydd bellach yn derbyn sylw byd eang ac yn gaffaeliad i ddyfodol economaidd yr Ynys.<br><br>Holodd JAJ pa bwysau mae CSYM yn ei roi ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng ngoleuni ei sefyllfa fregus gyfredol. Nododd LLMH bod cyfarfod ar y gweill fory rhwng arweinyddion y 6 Cyngor Sir a BIPBC a bydd Cyng. Dyfed Williams yn cynrychioli CSYM yn y cyfarfod. Cyfeiriodd at yr anghysondeb o Fyrddau Iechyd, os yw'n gorwario, yn cael help llaw gan y Llywodraeth i unioni eu cyllidebau tra bod Awdurdodau Lleol ddim. Cyfeiriodd hefyd at Adroddiad Twyll o fewn BIBPC sydd ar fin ei chyhoeddi. |
| 9 | Materion Safleoedd<br><br>• Cae Gofeb - nododd DAW bod Gethin Hughes yn fodlon gosod mainc yn y Fynwent Gyhoeddus er cof am ei Dad Mr K Hughes ac fe gytunodd DAW i ofyn iddo osod mainc yng Nghae Gofeb hefyd. JAJ am holi Richard Owen am drin y gwrychyn ger y Gofeb. ·<br>• Unedau Tan y Foel - cafwyd diweddariad am gyfarfod diweddar gyda swyddogion CSYM am ddyfodol a bwriadon safle. Mynychwyd gan DAW;LLMH;TAJ a Rhys Jones Nodwyd mai tri thenant sydd yn y 6 Uned ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd nad oes Tystysgrif Perfformio (EPC) ar yr Unedau a bod hyn yn ofyn |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | statudol ac o ganlyniad ni all CC Llan osod unedau gwag 1 a 2. Bydd cost ynghlwm a sicrhau'r tystysgrifau priodol. Nododd TAJ bod angen dangos blaengaredd hefo'r safle er eu bod yn ddolur i'r llygaid yn eu cyflwr cyfredol. Cydnabuwyd y bu llaesu dwylo gyda chynnal a chadw, sicrhau cytundebau addas a rhenti pris y farchnad dros y blynyddoedd blaenorol.. Nododd LLMH bod gwir angen edrych ar y sefyllfa yn ofalus er mwyn sicrhau gwerth am arian gan mai arian cyhoeddus sydd yng nghyllideb CC Llan. Nodwyd bod Adrannau Eiddo /Tai / Datblygu Economaidd yn rhan o'r trafodaethau er mwyn rannu arbenigedd. Nodwyd nad oes grantiau addas ar gael bellach o gronfeydd Ewrop. Er hynny, mae swyddogion CSYM am edrych am grant dichonoldeb i ddod a'r Unedau fyny i safon dderbyniol. Mae'r Adran Tai wedi gwneud gwaith cychwynnol ar lunio cynllun tai ar yr ardal werdd sydd wedi ei gadarnhau o fewn y ffin datblygu leol. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Rhys Jones Cwmni Eiddo rhag blaen i drefnu EPC priodol yn y man cyntaf. ·<br><br>• Safle'r Stesion<br>    ▪ Gosod grisiau - cytunwyd i roi'r mater hwn o'r naill du am rŵan yng ngoleuni sefyllfa ariannol bresennol CC Llan - Clerc i gysylltu â Liam Jones.<br>    ▪ Peiriant Coffi - fel uchod Clerc i gysylltu â Carolyn Owen.<br><br>• Lawnt Fowlio - nodwyd bod cynnal a chadw brys ar y lawnt a'r ffensio i'w wneud.<br>• Mynwentydd - dim i law ·<br>• Clwb Peldroed - dim i law |
| **10.** | **Gohebiaeth**<br><br>Llythyr i law gan blant Cyngor Ysgol Llan yn gofyn am gymorth ariannol tuag at y gost o osod tap yn eu gardd. Cytunwyd yn unfrydol i gronfa Ysgol Haearn roi £100 |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 8.55* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

**CYNGOR CYMDEITHAS**
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**COMMUNITY COUNCIL**

# Cofnodion Cyfarfod Ychwanegol
## 20.07.23
## 7pm Caffi Stesion

**Presennol:** JOJ (Cadeirydd) DAW; GW; JAJ; RY; DP; EO AR; LlMH; EY

1. **Croeso ac Ymddiheuriadau -** RJ; TAJ; IW

2. **Datgan Diddordeb**
   Datganodd DAW diddordeb gan ei fod yn gyflogedig gan Eiddo Cyf
   Datganodd JAJ / DP ddiddordeb yn eitem 5 Cae peldroed
   Croesawyd Rhys Jones, Eiddo Cyf i'r cyfarfod i roi arweiniad a barn broffesiynol ar eitemau 3;4 a5

3. **Tan y Foel - diweddariad sefyllfa, camau gweithredu a gofynion cyllidol**
   Nododd RJ bod cryn dipyn o drafod wedi bod yn ddiweddar ar ddyfodol ardal Unedau Tan y Foel. Roedd o'r farn bod angen edrych ar y sefyllfa bresennol a chyflwr yr Unedau. Cyfeiriodd at y cynlluniau drafft mae CSYM wedi cyflwyno eisoes ar gyfer codi tai ar y darn gwyrdd tu cefn i'r compownd a bod y broses yma yn symud ymlaen yn foddhaol. O ran yr Unedau mynegodd bryder am eu cyflwr presennol a'r costau fyddai o'u huwchraddio i safon dderbyniol. Cyfeiriodd yn arbennig at ddiffyg tystysgrifau perfformiad sef Energy Performance Certificates (EPC). Pwysleisiodd bod cwblhau'r asesiadau hyn yn statudol. Roedd gan RJ bris i law am gwblhau'r asesiadau ar y 6 Uned sef oddeutu £400 ac y byddai cwblhau'r asesiadau yn gymorth i adnabod swm a sylwedd y gwaith adfer ar yr Unedau.
   Dywedodd JAJ ei fod o'r farn bod cynnal a chadw safle o'r fath yn rhwymedigaeth sylweddol i C.C. LLan sydd heb yr arbenigedd na'r gyllideb i redeg prosiect o'r fath. Nododd LLMH ei bod yn hanfodol i CC Llan ystyried pob opsiwn posib er mwyn sicrhau y gwerth gorau am arian i'r gymuned.
   Yn dilyn trafodaeth nododd RJ bod sawl opsiwn ar y bwrdd fel trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf ac ni ellir gwneud penderfyniad ystyrlon ar ba opsiwn heno, Daeth yn amlwg bod teimlad cryf o gwmpas y bwrdd i edrych mewn i waredu'r safle. Dywedodd LLMH bod angen pwyso a mesur y gwerth fel unedau busnes a'r gwerth fel tai/plotiau. Nododd RJ na fyddai amcan bris Uned 1;2 a 3 fel ag y maent yn uchel iawn oherwydd eu cyflwr.
   Trafodwyd hawliau'r tenantiaid presennol. Dywedodd RJ nad oes cytundeb ffurfiol cryf ar Unedau 4 5 a 6 ac y gallasai hynny brofi'n helbulus. Argymhellodd cychwyn trafodaeth agored gyda'r holl


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

denantiaid a hynny trwy anfon llythyr yn amlinellu'r opsiynau posib i'r safle yn ei gyfanrwydd. Dylai'r llythyr hefyd holi am eu bwriadon fel tenantiaid i'r dyfodol. Pwysleisiodd RJ bod sefyllfa Unedau 4,5 a 6 yn fwy bregus o gofio amodau a hawliau 'sitting tenants'
Cynigiodd DAW i ddechrau'r broses o waredu ac fe eiliwyd gan EO a hynny drwy lythyru gyda'r tenantiaid yn y man cyntaf. RJ/Clerc i lunio llythyr a gofyn i dwrnai CC Llan gadarnhau'r cynnwys cyn ei anfon. Cytunwyd a'r camau cychwynnol hyn yn unfrydol namyn un bleidlais wedi ei hymatal.

4. **Lawnt Fowlio - diweddariad sefyllfa, camau gweithredu a gofynion cyllidol**
   Nododd JAJ ei fod ar ddeall nad oes ewyllys i gan aelodau'r Clwb i barhau i'w redeg. Yn dilyn trafodaeth cynigiodd JAJ i'r Clerc lythyru gyda Richard Owen; Gwilym Roberts; Eurwyn Hughes a Robin Jones i gynnig cyfle am drafodaeth ffurfiol ar ddyfodol y Clwb gyda chais am ymateb o fewn 21 diwrnod i ddyddiad yr ohebiaeth ac fe eiliwyd gan EO. Yn y cyfamser, er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch, cytunwyd i gau'r safle gan osod rhybudd ar y giât a newid côd y cloeon. Clerc i nodi hyn yn y llythyr at y Clwb Bowlio. Cytunodd GW i newid côd y cloeon. Cytunwyd yn unfrydol i weithredu'r uchod.
5. **Cae Peldroed - cytundeb**
   Trafodwyd llunio cytundeb ffurfiol gyda'r Clwb Peldroed. Nododd RJ bod angen i CC Llan benderfynu ar gynnwys y cytundeb yn y man cyntaf. Yna, trefnu cyfarfod gyda swyddogion y CPD er mwyn rhoi cyfle iddynt drafod y cynnwys ymhellach. Cytunodd LLMH i holi swyddogion CSYM os oes modd cael copi o dempled cytundeb tebyg sydd ganddynt gyda chlybiau peldrod eraill ar yr Ynys.
   Nododd JAJ bod y CPD yn gofalu am gynnal a chadw sylweddol o'r safle sydd, yn ei dro, yn golygu cryn arbediad ariannol i CC Llan. Cytunwyd yn unfrydol i drefnu cyfarfod gyda swyddogion CPD unwaith fydd cytundeb drafft wedi ei gytuno. .
6. **Cae Astro**
   Cyfeiriodd y Clerc at luniau o gyflwr y cae Astro gylchredwyd eisoes. Nodwyd bod gwaith trwsio brys ac ni ellir agor y cae nes fydd hyn wedi ei gwblhau. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu â Dyfed Pritchard rhag blaen er mwyn sicrhau ei fod ar gael i'r plant dros wyliau'r Haf. Hefyd, aelodau i anfon enwau amgen i'r Clerc rhag ofn na fedr DP wneud y gwaith.
7. **Eglwys Ceidio**
   Cyfeiriwyd at lythyr gan Mr Alan Kennet yn holi am gynnal a chadw Eglwys Ceidio. Roedd y cynnwys yn atodi amcangyfrif o gostau trwsio'r to a phwyntio'r waliau. Nododd GW nad yw'r to yn gollwng. Cytunwyd yn unfrydol i'r Clerc anfon llythyr at Mr Kennett yn diolch iddo am ddangos diddordeb yn Eglwys Ceidio ac am ei waith yn sicrhau


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

amcan brisiau, ond yn anffodus, yng ngoleuni trafodaethau blaenorol, ni all C C Llan roi blaenoriaeth i wariant fel hyn ar hyn o bryd

8. **Monitro Cyllideb 2023-24**
   - **Cytuno unrhyw wariant uwch**
     Cwteri Tan y Foel - £600 - dal ar hwn hyd nes bydd trafodaethau pellach ar ddyfodol yr Unedau.
     Gosod grisiau wrth y Caffi - £1400 - dal ar hwn gan nad yw'n waith brys nag angenrheidiol

   - **Sefyllfa ddiweddaraf benthyciadau**
     Nododd y Clerc ei bod wedi cylchredeg manylion ein benthyciadau eisoes. Mae morgais ar yr Unedau yn gorffen eleni ac mae £25K yn weddill ar y benthyciad o £45K drefnwyd yn 2009 i ddodrefnu'r Caffi a'r gegin.

   - **Diweddariad Tal ar Werth**
     Nododd y Clerc ei bod wedi cyflwyno hawliad TAW ond heb ei dderbyn eto. Cyfanswm o £7047.73, sef 2021-22 (£2347.08) a 2022-23 (£4700.65)
     Cytunwyd yn unfrydol i'w drosglwyddo i'r Cyfrif Wrth Gefn

9. **Adolygu Rheoliadau Cyllidol**
   Nododd y Clerc nad oes dim wedi newid i'r Rheolau Cyllidol ond ei fod yn ymarfer da i'w adolygu yn rheoliad. Nododd mai, ar hyn o bryd, mae modd gwario hyd at £1500 heb orfod cael 3 amcan bris.
   Cytunwyd i adolygiad pellach yn yr Is-Bwyllgor Cyllid nesaf

10. **Adolygu Cyflog Clerc**
    Ymlaen i'r Is Bwyllgor Cyllid nesaf.

    Gwnaethpwyd cais i'r Clerc gylchredeg y cofnodion mor fuan â phosib ag i bawb oedd yn bresennol cyflwyno sylwadau gyda throad e-bost.

*Daeth y cyfarfod i ben am 20:54*


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383